Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Cyflwyno Cynnig

# Dogfen Ganllaw a Gweithdrefn

# 2026-27

**Pŵer a Phwrpas**

Bydd y ddogfen ganllaw hon yn rhoi mwy o eglurder i fyfyrwyr a chynigwyr am yr hyn a ganiateir o fewn pwerau cyrff llunio polisi'r Undeb, a'r hyn y gellir ei wneud ar ôl i fyfyrwyr gymeradwyo cynnig. Mae'r broses hon yn sicrhau nad yw ein prosesau democrataidd yn cymeradwyo cynigion na fydd yr Undeb o bosibl yn eu deddfu am amrywiaeth o resymau – gan gynnwys y gyfraith.

Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn gorff gwneud penderfyniadau ffurfiol o fewn yr Undeb, a bennir gan ddogfennau llywodraethu'r Undeb gan gynnwys 'Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu' ac 'Is-ddeddfau' yr Undeb. Mae'r dogfennau hyn yn nodi pwerau'r CCB a'r ffordd y mae'n ofynnol i'r Undeb wneud penderfyniadau.

Senedd Myfyrwyr Undeb Myfyrwyr Caerdydd yw corff llunio polisïau rheolaidd yr Undeb, sy'n cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr etholedig, a diffinnir y ffordd y mae'n gweithredu hefyd gan ddogfennau llywodraethol yr Undeb.

Mae llunio polisi'r Undeb yn cyflawni rhai o ddyletswyddau undebau myfyrwyr, fel y diffinnir yn Neddf Addysg 1994 ac a oruchwylir gan y Brifysgol. Mae hyn yn golygu weithiau mae'n ofynnol i'r Undeb wneud penderfyniadau ynghylch CCB, Senedd y Myfyrwyr a'r eitemau a drafodir, a'r ffordd y gwneir penderfyniadau i gydymffurfio â gofynion yn hytrach nag mewn ffordd sy'n caniatáu'r drafodaeth fwyaf. At hynny, fel elusen gofrestredig mae'n hanfodol bod y camau a gymerir gan yr Undeb yn cyd-fynd â'n diben a'n hamcanion elusennol. Fel yr amlinellir ym Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu'r Undeb:

> *"Amcanion yr Undeb yw hyrwyddo addysg Myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy:"*
>
> > *4.1. hyrwyddo buddiannau a lles Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu cwrs astudio a chynrychioli, cefnogi, a chynghori Myfyrwyr;*
> > *4.2. bod yn sianel gynrychioliadol gydnabyddedig rhwng Myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a*
> > *4.3. darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon, a hamdden, a fforymau ar gyfer trafodaethau a dadlau ar gyfer datblygiad personol ei Fyfyrwyr."*

Mae'r ddogfen ganllaw a gweithdrefn hon yn ddogfen swyddogol gan Undeb Myfyrwyr Caerdydd, sy'n amlinellu'r broses o gyflwyno cynigion ar gyfer blwyddyn academaidd 2026-27. Rhaid i unrhyw gynnig a gyflwynir fod yn unol â'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon, ac ni fydd unrhyw gynnig sy'n methu â bodloni'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon yn cael ei ystyried.

**Amserlen ar gyfer Cyflwyno Cynnig**

| | |
|---|---|
| **Dydd Llun 14$^{eg}$ Medi, 10yb** | Bydd y **porth cyflwyno cynnig yn agor** a gall aelodau gyflwyno cynigion yr hoffent eu cyflwyno i'w trafod yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Y cyfle cyntaf i drafod cynigion fydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Undeb. |
| **Dydd Iau 22$^{ain}$ Hydref, 6yh** | Bydd y **porth cyflwyno cynnig yn cau**. |
| **Rhwng Dydd Gwener 23$^{ain}$ Hydref a Dydd Mercher 28$^{ain}$ Hydref** | Bydd Grŵp Goruchwylio Democrataidd Undeb y Myfyrwyr yn **adolygu'r cynigion a gyflwynwyd.** |
| **Dydd Llun 2$^{il}$ Tachwedd, 10yb** | Bydd y **bleidlais flaenoriaeth yn agor** a gall aelodau bleidleisio dros y 4 cynnig y maent yn dymuno eu trafod yn y CCB eleni. Bydd unrhyw gynnig nad yw'n cyrraedd y pedwar uchaf ond sy'n derbyn mwy na 25 pleidlais yn cael ei ychwanegu at agenda Senedd y Myfyrwyr yn y dyfodol. |
| **Dydd Iau 5$^{ed}$ Tachwedd, 6yh** | Bydd y **bleidlais flaenoriaeth yn cau.** |
| **Dydd Gwener 6$^{ed}$ Tachwedd** | Cyhoeddi **agenda terfynol y CCB.** |
| **Dydd Iau 19$^{eg}$ Tachwedd** | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2026**, Y Neuadd Fawr (Undeb Myfyrwyr Caerdydd), 6-9yh. |

**Proses Adolygu Cynigion**

Fel y nodwyd uchod, rhwng dydd Gwener 23ain Hydref a dydd Mercher 28ain Hydref, bydd Grŵp Goruchwylio Democrataidd Undeb y Myfyrwyr yn adolygu'r cynigion a gyflwynwyd ac yn rhoi gwybod i'r cynigwyr am y penderfyniadau ynghylch a all eu cynnig symud ymlaen. Lle nad yw'r newidiadau sydd eu hangen yn sylweddol, gall y Grŵp Goruchwylio Democrataidd gynnig cyfle i gynigydd ddiwygio eu cynnig i ganiatáu iddo gael ei ystyried. Gall y Grŵp Goruchwylio Democrataidd hefyd ei gwneud yn ofynnol i gynigydd ymgysylltu â rhanddeiliaid ymhlith y myfyrwyr a siarad â nhw am y cynnig, er mwyn sicrhau bod barn y rhai y byddai cynnig o'r fath yn effeithio arnynt wedi'i hystyried - lle nad oes tystiolaeth o ymgysylltu o'r fath, gellir atal cynnig rhag symud ymlaen.

Lle mae cynigydd wedi cael ei annog neu wedi cael cynnig cyfle i wneud newidiadau, rhaid i'r cynigydd gyflwyno ei gynnig wedi'i ddiweddaru drwy e-bost i agm@cardiff.ac.uk erbyn 4yp ddydd Iau 29ain Hydref fan bellaf. Yna bydd y Grŵp Goruchwylio Democrataidd yn cyfleu unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch symud cynnig ymlaen i'r bleidlais flaenoriaeth erbyn hanner dydd ddydd Gwener 30ain Hydref. Os yw cynigydd cynnig yn dymuno herio penderfyniad a wnaed gan y Grŵp Goruchwylio Democrataidd, dylai ddilyn y broses fel yr amlinellir yn adran 'Herio Penderfyniad' y ddogfen hon.

**Fformat Cynigion**

Dylid fformatio cynigion a gyflwynir yn y fformat cynnig safonol. Mae'r fformat hwn yn canolbwyntio ar dair adran: Nodiadau, Credoau a Phenderfyniadau. Mae pob adran yn chwarae rhan bwysig wrth amlinellu cynnig a hysbysu myfyrwyr am y camau a fyddai'n cael eu cymryd gan swyddogion etholedig yr Undeb pe bai'n cael ei basio.

> ***Nodiadau***
> Mae'r adran hon, ar ddechrau cynnig, yn nodi'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd. Mae angen ei hysgrifennu mewn ffordd glir a chryno, gan ddarparu gwybodaeth gyd-destunol berthnasol y credwch y dylai myfyrwyr ei gwybod cyn ystyried y cynnig neu'r camau gweithredu arfaethedig.
>
> ***Credoau***
> Dylai'r adran hon ddatblygu ymhellach ar yr adran nodiadau a darparu'r egwyddorion sy'n esbonio pam mae cynnig o'r fath yn bwysig i fyfyrwyr, a pham y dylai newid ddigwydd.
>
> ***Penderfyniadau***
> Dylai'r adran hon nodi'r union gamau y byddai'n ofynnol i swyddogion Undeb y Myfyrwyr eu cymryd pe bai'r cynnig yn cael ei basio. Dylai restru'r holl ganlyniadau a chamau gweithredu disgwyliedig.

Mae'r porth cyflwyno cynigion wedi'i fformatio yn y ffordd uchod felly nid oes angen i aelodau gymryd unrhyw gamau pellach i sicrhau bod eu cynnig yn cael ei gyflwyno'n gywir.

Ni ddylai cynigion fod yn fwy na 600 gair o hyd. Mae hyn wedi'i gyfyngu'n llym i uchafswm o 200 gair ar gyfer pob adran a nodir uchod.

Dylai cynigion alw am weithredu ar un pwnc penodol ac osgoi ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion. Mae hyn er mwyn sicrhau cysondeb a hygyrchedd i fyfyrwyr a galluogi gwaith ffocws ac ystyrlon i weithredu ar y penderfyniadau.

Os oes angen cymorth ar unrhyw aelod i fformatio cynnig neu os ydynt angen cyngor, fe'i hanogir i siarad ag aelod o dîm Llais y Myfyrwyr drwy anfon e-bost at agm@caerdydd.ac.uk.

**Gofynion Cynigion**

Wrth gyflwyno cynnig, rhaid i gynigydd sicrhau bod y cynnig yn unol â'r gofynion a nodir isod. Wrth ystyried cynnig, y gofynion a nodir isod bydd yn cael eu defnyddio gan y Grŵp Goruchwylio Democrataidd i'w adolygu. Lle nad yw cynnig yn bodloni'r holl ofynion isod yna bydd naill ai'n cael ei wrthod, neu le nad yw'r newidiadau gofynnol yn sylweddol, bydd y cynigydd yn cael cyfle i wneud golygiadau i'w cynnig.

Rhaid i unrhyw gynnig a gyflwynir i CCB yr Undeb gydymffurfio â'r canlynol er mwyn cael ei ystyried:

- Rhaid i gynigion fod yn berthnasol i fyfyrwyr fel myfyrwyr a gellir dangos yn glir sut mae'r mater yn berthnasol i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r camau y mae unrhyw gynnig yn galw amdanynt fod yn benodol i amgylchedd y Brifysgol a myfyrwyr fel myfyrwyr.

- Ni all cynigion bennu safbwyntiau corfforaethol y sefydliad ar faterion. Mae hyn yn golygu na all cynigion alw ar Undeb Myfyrwyr Caerdydd i wneud datganiad yn amlinellu safbwynt fel sefydliad (h.y. datganiad sy'n datgan 'cred Undeb Myfyrwyr Caerdydd').

- Rhaid i gynigion fod o fewn y gyfraith, a pheidio â galw am nac annog unrhyw ymddygiad a allai gael ei ystyried yn anghyfreithlon.

- Ni all cynigion alw am unrhyw gamau gweithredu sy'n cyfyngu ar, neu'n lleihau, hawl myfyrwyr i ryddid barn.

- Rhaid i deitlau cynigion fod yn adlewyrchiad cywir o benderfyniadau'r cynnig.

- Rhaid i gynigion beidio â gwneud neu benderfynu gwneud penderfyniadau masnachol ar ran yr Undeb nac amlinellu gweithgaredd masnachol neu gweithredol arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno a chyfyngu ar weithgarwch masnachol neu gweithredol.

- Ni all cynigion wneud penderfyniadau ariannol ar ran yr Undeb, gan gynnwys manylu ar gamau gweithredu sy'n gofyn am ymrwymiad ariannol gan yr Undeb.

- Rhaid i gynigion beidio â gwrth-ddweud neu wrthdaro â dogfennau llywodraethu'r Undeb, na cheisio defnyddio pwerau a gadwyd yn ôl ar gyfer corff, pwyllgor neu

grŵp arall o fewn Undeb y Myfyrwyr.

Mae hefyd yn ofynnol cyflwyno cynigion yn y fformat a nodwyd uchod.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cadw'r hawl i wrthod neu atal cynnig os yw'r Undeb yn credu y gallai dadl ar gynnig o'r fath roi myfyrwyr mewn perygl, arwain at ymddygiad anghyfreithlon, neu achosi i cyfarfodydd democrataidd fod yn anniogel neu fethu â chynnal ei fusnes hanfodol.

Lle ystyrir bod dau gynnig neu fwy yn sylweddol debyg neu'n ymdrin â materion neu bynciau sylweddol debyg, mae gan Grŵp Goruchwylio Democrataidd (mewn trafodaeth â Chadeirydd y CCB a Senedd y Myfyrwyr) yr hawl i fynnu bod unrhyw set o gynigion yn cael eu huno neu eu cyfuno. Bydd hyn yn sicrhau bod y CCB yn gallu ymdrin â chymaint o bynciau â phosibl o fewn y terfynau penodol.

**Herio Penderfyniad**

Os nad yw cynigydd yn cytuno â phenderfyniad y Grŵp Goruchwylio Democrataidd i wrthod cynnig neu fynnu bod cynnig yn cael ei olygu, yna gall y cynigydd herio'r penderfyniad.

Rhaid i'r cynigydd herio drwy e-bostio at agm@caerdydd.ac.uk o fewn 24 awr, wedi i'r Grŵp Goruchwylio Democrataidd anfon y penderfyniad atynt. Dylai'r e-bost nodi'n glir eu bod yn herio'r penderfyniad ac amlinellu pam eu bod yn credu bod eu cynnig yn unol â'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon.

Bydd y cais am adolygiad wedyn yn cael ei anfon at Swyddog Adolygu annibynnol y CCB ochr yn ochr â phenderfyniad gwreiddiol y Grŵp Goruchwylio Democrataidd. Bydd Swyddog Adolygu'r CCB wedyn yn ystyried y cais ac yn ei adolygu yn erbyn y gofynion a nodir yn y ddogfen hon, yn ogystal â dogfennau llywodraethu'r Undeb.

Ni fydd Swyddog Adolygu'r CCB yn ystyried eu penderfyniad yn erbyn penderfyniadau blaenorol, na'r hyn a drafodwyd mewn unrhyw CCB blaenorol yn yr Undeb cyn creu'r ddogfen hon, na gweithredoedd neu benderfyniadau sefydliadau a/neu undebau myfyrwyr eraill.

Bydd penderfyniad y Swyddog Adolygu CCB yn cael ei gyfleu i'r cynigydd cyn gynted â phosibl. Bydd eu penderfyniad yn derfynol ac ni ellir ei herio ymhellach.

Nid yw penderfyniadau a wneir gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb yn destun y broses herio hon.

**Pleidlais Flaenoriaeth**

O 10yb ddydd Llun 2il Tachwedd i 6yh ddydd Iau 5ed Tachwedd 2025, bydd aelodau Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn gallu pleidleisio dros y cynigion y maent am eu gweld yn cael eu trafod yn y CCB eleni. Gall cynigwyr ymgyrchu ac apelio ar fyfyrwyr i bleidleisio dros eu cynnig ond rhaid iddynt sicrhau bod eu gweithredoedd yn parhau'n gyfreithlon ac o fewn rheoliadau'r Undeb a'r Brifysgol.

Bydd y 4 cynnig gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio yn cael eu hychwanegu at agenda'r cyfarfod a byddant yn ymddangos ar yr agenda yn y drefn y cawsant eu pleidleisio. Bydd unrhyw gynnig nad sy'n cyrraedd y 4 uchaf ond sy'n derbyn mwy na 25 o bleidleisiau yn cael ei ychwanegu at agenda Senedd y Myfyrwyr yn y dyfodol.